# HAENAU DARPARIAETH

Gellir mesur a threfnu darpariaeth gwasanaeth sefydliadol (yn ogystal â gwelliant parhaus sefydliadau) a'u dadansoddi ar 3 lefel:

1. LEFEL GORFFORAETHOL
2. LEFEL GWASANAETH
3. LEFEL WEITHREDOL

## LEFEL GORFFORAETHOL

Mae hon yn **lefel strategol** ac yn canolbwyntio ar ddarpariaeth gwasanaeth sefydliadol. Dyma lle y mae rheolwyr yn ymdrin â strategaeth, cynllun, strwythur, polisi a gweithrediad adnoddau.

**RHEOLAETH STRATEGOL** yw'r hyn sydd yn gyrru darpariaeth gwasanaeth ar y lefel hon. Mae'n cynnwys pwyntiau fel strwythur sefydliadol, diwylliant, cydweithrediad rhwng sefydliadau, rheoli newid, technoleg ac ystyriaethau amgylcheddol, allanol. Dylai rheoli strategol ddiffinio bwriad a chenhadaeth y sefydliad. Mae'r lefel sefydliadol yn cynnwys:

- Strategaeth;
- Cynllunio a Strwythur;
- Risg – drwy eithriad;
- Polisi Corfforaethol;
- Sicrwydd ansawdd;
- Llywodraethu; a
- Gweithrediad cyllidebol ac adnoddau.

**SWYDDOGION SYDD YN ATEBOL:**

Tîm Rheoli Corfforaethol

**ARWEINYDD Y DDARPARIAETH:**

Prif Swyddog Gweithredol

**ADRODD YN ÔL AR DDATBLYGIAD:**

Bwrdd Lles Corfforaethol/Craffu (lle y mae angen)

**PRIF STRATEGAETH(AU):**

Cynllun Lles Corfforaethol

## LEFEL CYNLLUN GWASANAETH

Mae'r lefel gwasanaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar amcanion adrannol a gweithredol. Mae'r amcanion hyn yn cydfynd â'r Strategaeth Lles Corforaethol. Mae'r pwyslais ar ddarpariaeth gwasanaeth swyddogaethol er mwyn cyflawni angen penodol.

**RHEOLI GWASANAETH** yw lle y mae'r ffocws ar lif gwaith a phroses ac mae rheoli ansawdd a gwella busnes yn brif flaenoriaethau. Mae'r lefel hon yn cynnwys:

- Rheolaeth gyllidebol;
- Llif gwaith;
- Gwelliant proses/gwasanaeth;
- Rheolaeth ased;
- Rheoli ansawdd;
- Rheoli a lliniaru risg;
- Cynllunio adrannol / swyddi; a
- Gwelliant ac ailbennu ymyriadau.

**SWYDDOGION SYDD YN ATEBOL:**

Cyfarwyddwyr Gwasanaeth

**ARWEINYDD Y DDARPARIAETH:**

Uwch Dîm Arweiniol

**ADRODD YN ÔL AR DDATBLYGIAD:**

CMT/QPIR / Craffu (pan fydd angen)

**PRIF STRATEGAETH(AU)/CYNLLUNIAU:**

Y Gyfarwyddiaeth

## LEFEL CYNLLUN GWEITHREDOL

Mae'r lefel weithredol yn gysylltiedig â rheolaeth ymarferol darpariaeth fusnes o ddydd i ddydd ac yn gysylltiedig â rheoli pobl mewn cyd-destun sefydliadol.

Mae **RHEOLI O DDYDD I DDYDD** yn cael ei gyflawni drwy ganolbwyntio ar sgiliau, dealltwriaeth, hyfforddi staff i ddarparu gwell eglurder i'w rholiau a'u cyfrifoldebau a sicrhau fod gan staff y sgiliau hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau 'busnes fel arfer.' Mae'r lefel hon yn cynnwys:

- Diffinio amcanion gwaith unigol a safonnau sydd yn cydfynd ag amcanion a blaenoriaethau corfforaethol;
- Cydnabod effaith gweithrediadau staff ar ddarpariaeth y gwasanaeth a'r sefydliad;
- Cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygiad er mwyn sicrhau gwelliannau pellach; a
- Hyfforddi a mentora i ddatblygu sgiliau a gwella capasiti drwy rannu ymarfer aml-ddisgyblaethol.

**SWYDDOGION SYDD YN ATEBOL:**

Penaethiaid Gwasanaeth

**ARWEINYDD Y DDARPARIAETH:**

Arweinwyr/Rheolwyr Tîm

**ADRODD YN ÔL AR DDATBLYGIAD:**

Ffocws ar Fy Mherfformiad / Rheolwyr Llinell

**PRIF STRATEGAETH(AU)/CYNLLUNIAU:**

Cynlluniau Gwasanaeth